Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

07/09/2012

Annwyl Leighton Andrews,

**Safonau a Chynlluniau Iaith Gymraeg: personau darostyngedig**

Un o gyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg, yn rhinwedd **Rhan 2**, 4 (2) (c) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 [y Mesur] yw cadw digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth.

Pwrpas y llythyr hwn yw dwyn eich sylw at yr angen i gynnal a chynyddu gafael Llywodraeth Cymru dros gyrff cyhoeddus mewn perthynas ag ymrwymiadau iaith statudol.

Ers i'r Mesur dderbyn cydsyniad brenhinol, flwyddyn a hanner yn ôl, mae newidiadau sefydliadol wedi digwydd yn y sector cyhoeddus e.e. gwnaed newidiadau sylfaenol i statws cyfreithiol rhai sefydliadau, diddymwyd a chrëwyd cyrff o'r newydd neu fe newidiwyd ac ehangwyd eu swyddogaethau. Canlyniad newidiadau strwythurol o'r fath yng nghyswllt y Mesur yw fod yr atodlenni wedi dyddio ac nad oes gafael gan Lywodraeth Cymru ar gyrff pwysig drwy gyfrwng y gyfundrefn cynlluniau iaith Gymraeg heb i'r Llywodraeth fynd ati i enwi sefydliadau o dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn y cyfnod interim hyd nes y cyflwynir Safonau mae risg y gall bylchau dechrau amlygu. e.e. rwy'n dwyn eich sylw'n arbennig at y corff adnoddau naturiol i Gymru yr arfaethir ei sefydlu yn Ebrill 2013.

Awgrymaf ei bod yn amserol ystyried ym mha ffordd y dylid gweithredu er mwyn gallu cynnal ymrwymiadau iaith statudol yn y sector cyhoeddus dros y flwyddyn a hanner nesaf. Rwy'n cynnig y dylid ystyried dau gam sylfaenol, sydd fel a ganlyn:-

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Diweddaru atodlenni'r Mesur fel eu bod yn adlewyrchiad cyfredol o'r holl awdurdodau cyhoeddus sy'n gwasanaethu siaradwyr Cymraeg yng Nghymru;
- Mewn achosion lle ymddengys y gallasai amserlen y newidiadau sefydliadol ochr yn ochr gydag amserlen cyflwyno Safonau arwain at greu bwlch, lle na byddai rhai endidau yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion iaith statudol, y dylid enwi'r sefydliadau hynny o dan adran 6(i)(o). Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cynhwysir wrth y llythyr hwn restr o'r amgylchiadau newydd mae fy swyddogion yn ymwybodol ohonynt ynghyd â chynigion gweithredu cysylltiedig. Buaswn yn ddiolchgar o dderbyn eich ymateb i'r hyn gaiff ei argymell.

Yr eiddoch yn gywir/Yours sincerely,

**Meri Huws,**
Comisiynydd y Gymraeg

cc. Emyr Roberts, Llywodraeth Cymru

Personau y mae angen eu henwi ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu yn Adran 6(1)(o) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

| Enw'r person | Angen ei enwi yn y Mesur (atodlen 6) | Pa gategori Atodlen 5? | Angen ei enwi yn y Mesur (atodlen 8) | Pa gategori Atodlen 7? | Angen ei enwi yn y Ddeddf (6(1)(o)) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | √ | (1) | | | √ | Nid yw statws yr Heddluoedd yn glir ac felly cawsant eu cynnwys |
| Heddlu Gwent | √ | (1) | | | √ | |
| Heddlu Dyfed Powys | √ | (1) | | | √ | |
| Heddlu De Cymru | √ | (1) | | | √ | |
| Comisiynwyr Heddlu Cymru | √ | (1) | | | √ | |
| Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil | √ | (1) | | | | Cafodd yr Awdurdod ei greu o dan Ddeddf Ynni 2004 fel Corff Cyhoeddus An-Adrannol gweithredol. Rhestrir 'Awdurdodau'r Heddlu' yn Atodlen 6 y Mesur. Nid yw'n eglur a yw'r corff hwn yn y categori hwnnw. |
| Biwro Cofnodion Troseddol | √ | (2) | | | | Asiantaeth Weithredol o'r Swyddfa Gartref a sefydlwyd dan 'The Police Act 1997'. Gellir dadlau bod y corff hwn eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 ('Personau sy'n arfer ar ran y goron.....') ac felly nad oes angen ei enwi. |
| Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol | √ | (2) | | | | Corff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd dan y 'Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006' . |

| | | | |
|---|---|---|---|
| The Disclosure and Barring Service | √ | (2) | Corff newydd yn uno'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol, dan y Protection of freedoms Act 2012. Yn weithredol erbyn Rhagfyr 2012. 'Body Corporate' na fydd yn asiant y Goron felly gellir ei enwi. |
| Yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol | √ | (2) | Sefydlir eleni dan y Bil Trosedd a Llysoedd. Gweithredir swyddogaethau'r corff ar ran y Goron. Gellir dadlau bod y corff hwn eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 ('Personau sy'n arfer ar ran y goron.....') ac felly nad oes angen ei enwi |
| Yr Ombwdsmon Cyfraith | √ | (2) | Sefydlwyd dan y 'Legal Services Act 2007'. Wedi gweithredu cynllun iaith yn wirfoddol ers |
| Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr | √ | (6) | Yn gweithredu swyddogaethau rheoleiddio ar ran Cymdeithas y |
| Cymorth i Ddioddefwyr | √ | (5) | Elusen yn derbyn arian cyhoeddus gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (£10m p.a.). Wedi gweithredu cynllun iaith yn |
| Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol | √ | (4) | Gosodir swyddogaethau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar y corff hwn yn y 'Financial Services Act 2010' |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus | √ | (4) | | Penodiad cyhoeddus gan yr Arglwydd Ganghellor yw'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Caniateir hynny gan y 'Mental Capacity Act 2005' |
| Y Bwrdd Parôl | √ | (2) | | Corff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd dan y 'Criminal Justice Act 1967' . |
| NEST (National Employment Savings Trust) | √ | (4) | | Ymddiriedolaeth sy'n gweithredu swyddogaethau dan y 'Pensions Act 2007' |
| Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol | √ | (2) | | Corff cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd dan y 'Criminal Appeal Act 1995' |
| Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol | √ | (4) | | Corff sy'n gweithredu swyddogaethau dan y 'Financial Services and Markets Act 2000 ' |
| Canal and River Trust | √ | (5) | √ | Elusen newydd yn cael ei sefydlu ym Mehefin 2012 i gymryd drosodd gwaith Dyfrffyrdd Prydain/ British Waterways.  Roedd Dyfrffyrdd Prydain wedi eu hewni o dan Deddf Iaith Gymraeg 1993 at yn Atodlen 6 y Mesur. Caiff y corff newydd hwn grant blynyddol gan DEFRA dros y 15 mlynedd nesaf. |
| Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Meddygol | √ | (2) | | Asiantaeth Weithredol sy'n gweithredu ar ran Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Gellir dadlau bod y corff hwn eisoes |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Asiantaeth Taliadau Gwledig | √ | (2) | | Asiantaeth Weithredol o Defra. Gellir dadlau bod y corff hwn eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 ('Personau sy'n arfer |
| Ofwat | √ | (6) | | Adran Llywodraeth Heb-Weinidog sy'n gweithredu swyddogaethau dan y Ddeddf |
| Ofgem | √ | (6) | | Yn gweithredu o dan arweiniad a threfn lywodraethol y 'Gas and Electricity Markets Authority'. Pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod yn dod o dan y Ddeddf Nwy 1986, y Ddeddf Trydan 1989, y Ddeddf |
| Asiantaeth y Swyddfa Brisio | √ | (2) | | Asiantaeth Weithredol o Cyllid a Thollau EM. Gellir dadlau bod y corff hwn eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi | √ | (6) | | Arolygiaeth annibynnol sy'n cael ei ariannu gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol | √ | (2) | | Asiantaeth Weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ers 2008 |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol | √ | (6) | | Corff annibynnol a gafodd ei greu gan y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Financial Conduct Authority | ✓ | (2) | Mae Mesur Gwasanaethau Ariannol ar ei ffordd trwy San Steffan ar hyn o bryd. Pan fydd y Mesur yn dod i rym fel Deddf bydd y corff hwn yn cael ei sefydlu i gymryd drosto rol gwarchod defnyddwyr yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Bydd e hefyd yn rheoleiddo cwmniau ariannol a darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr amdanynt. Nid yw'n gorff y Goron. |
| The Police ICT Company Ltd | ✓ | (5) | Cwmni fydd yn cymryd ymlaen rol TG yr Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona ar ôl i'r corff hwnna gael ei ddisodli ym mis Rhagfyr 2012. http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-it/ http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-it/ |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru | ✓ | -1 | Sefydlwyd gan Reoliadau yn 2004 i gynghori a monitro CIC Cymru. (Enwir fel awdurdod cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldebu 2010). Y prif weithredwr Carol Lamyman-Davies yn awyddus i gydsynio i hyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Fferyllol Cyffredinol | ✓ | 2 | | Sefydlwyd o dan Pharmacy Order 2010 i ymgymryd â rôl rheoleiddio'r proffesiwn wrth yn sgil rhaniad yn swyddogaethau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol |
| Athrofa Prifysgol Cymru | | | | Wedi newid enw i Prifysgol Fetropolitan Caerdydd |
| Prifysgol Cymru /Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant/ Prifysgol Fetropolitan | ✓ | | | Yn y broses o uno |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | ✓ | | | Nid yw'n ymddangos ar yr atodlen - yn y broses o uno gyda Prifysgol Cymru /Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Corff Adnoddau Naturiol | ✓ | 2 | ✓ | Pan y'i sefydlir fe fydd angen ei ychwanegu i atodlen |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | ✓ | 2 neu 6 | | |

**Materion pellach**

| | |
|---|---|
| Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG | Yn Atodlen 8 yng ngholofn y person/categori nodir "Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb neu'n unol â threfniadau a wnaed gyda....." Enwir cynghorau sir ond nid enwir Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. A yw'n briodol cynnwys Byrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn y golofn hon hefyd? |
| Estyn | Nid ydy Estyn wedi ei enwi yn yr atodlen |
| Prifysgol Morgannwg | Mae'r Brifysgol wedi ei enwi yn Atodlen 6 ond mae Grŵp Morgannwg bellach yn cynnwys y Brifysgol, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Coleg Merthyr |
| Gwasanaeth Mynediad i Brifysgolion a Cholegau (UCAS) | Yn Atodlen 7 nodwyd yng ngholofn y person/categori "Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau sy'n annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd.." A yw'n briodol felly i enwi UCAS? |

| | | |
|---|---|---|
| CBAC a byrddau arholi | | A dylid enwi'r CBAC a byrddau arholi eraill dan Atodlen 7? |
| Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector | | Mae'r Cynghorau wedi ei enwi fel grŵp ond nid ydy'r gyngrhair wedi ei enwi. |
| Gyrfa Cymru | | Mae angen adlewyrchu'r newid sydd wedi digwydd i'w statws. |
| Pob Coleg AB yng Nghymru<br>Coleg Morgannwg<br>Coleg Ystrad Mynach<br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br>Coleg Gwent<br>Coleg Catholig Dewi Sant<br>Coleg Pen-y-bont<br>Coleg Sir Gâr<br>Coleg Gwyr Abertawe<br>Coleg Castell-Nedd Port Talbot<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Llysfasi<br>Coleg Glannau Dyfrdwy a Garddwriaethol<br>Coleg Powys<br>Coleg Ial<br>Coleg Ceredigion<br>Coleg Sir Benfro<br>Coleg YMCA<br>Coleg Harlech a Choleg Addysg y Gweithwyr | ✓ | Nid oes un Coleg AB wedi ei henwi yn Atodlen 6 |